



Cynllun Cymorth Gwaed
Heintiedig Cymru

Wales Infected Blood
Support Scheme

CYLCHLYTHYR CYNLLUN CYNORTHWYO GWAED HEINTIEDIG CYMRU (WIBSS)

Ebrill 2023

HAWL I FUDD-DALIADAU

COSTAU YNNI

Yng Nghynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru (WIBSS) rydym yn sylweddoli y gall yr argyfwng costau byw presennol fod yn cael effaith ar ein buddiolwyr. O ganlyniad i gyflyrau iechyd parhaus, rydym yn cydnabod y gall effeithio ar rai yn fwy nag ar eraill.

Felly rydym wedi casglu gwybodaeth am grantiau ynni ac arbedion dŵr cyfredol, a allai fod ar gael i chi.

Mae'r Tîm Hawliau Lles yn hapus i drafod eich amgylchiadau personol, ac ymchwilio i ba gymorth a allai fod ar gael i chi. Cysylltwch â ni ar 02920 902280 neu wibss@wales.nhs.uk.

OS YDYCH CHI'N BERCHEN AR EICH TŶ EICH HUN NEU'N RHENTU GAN LANDLORD PREIFAT (NID GAN Y CYNGOR NEU GYMDEITHAS DAI)

Ydy hi'n anodd gwresogi eich cartref? Gallech fod yn gymwys i gael gwelliannau effeithlonrwydd ynni cartref heb unrhyw gost i chi.

Mae'r cynllun Nyth yn rhan o Gartrefi Clyd Llywodraeth Cymru. Mae Nyth yn gosod boeleri, systemau gwres

CYSYLLTWCH Â NI

Cysylltwch â WIBSS ar
02920 902280 neu
anfonwch e-bost at
wibss@wales.nhs.uk

Os nad yw eich galwad yn cael ei hateb, gadewch neges gyda'ch enw a'ch rhif cyswllt a byddwn yn eich ffonio yn ôl yn brydlon.

Ar gyfer Seicoleg a Llesiant anfonwch e-bost at:
wibss.wellbeing@wales.nhs.uk.

Cyswllt Diweddar

Rydym yn cymryd eich gwybodaeth bersonol o ddifrif.

Os oes gennych unrhyw amheuaeth ynghylch tarddiad llythyr yn gofyn am eich data personol, sy'n ymddangos fel pe bai'n dod o WIBSS, cysylltwch â ni ar ein llinell uniongyrchol, **02920 902280**.

canolog ac insiwleiddio am ddim i helpu aelwydydd ar incwm isel i gadw'n gynnes ac i leihau cost eu biliau ynni, ochr yn ochr â chyngor ynni pwrpasol.

Gallech fod yn gymwys i gael gwelliannau effeithlonrwydd ynni am ddim:

- Os ydych chi'n berchen ar eich tŷ eich hun neu'n rhentu gan landlord preifat (nid gan y Cyngor neu Gymdeithas Dai)
- Os nad yw eich cartref yn ynni effeithiol ac mae'n ddrud i'w wresogi
- Os ydych chi neu rywun sy'n byw gyda chi yn cael budd-dal sy'n dibynnu ar brawf modd **NEU** os oes gennych gyflwr anadlol, cylchrediad y gwaed neu gyflwr iechyd meddwl cronig **ac** incwm sydd islaw trothwyon diffiniedig

Os ydych yn gymwys, bydd Nyth yn argymhell pecyn o welliannau effeithlonrwydd ynni heb unrhyw gost i chi. Bydd y gwelliannau hyn yn gwneud eich cartref yn gynhesach ac yn arbed arian i chi ar eich biliau ynni.

Os hoffech ragor o wybodaeth, ffoniwch Nyth ar Radffôn 0808 808 2244 (Llun-Gwener 9am-6pm) neu ewch i www.nyth.llyw.cymru a gofynnwch inni eich ffonio'n ôl . Bydd cynghorwyr Nyth yn gofyn rhai cwestiynau i chi am eich eiddo a'r budd-daliadau a gewch, felly gwnewch yn siŵr bod eich llythyr dyfarnu budd-dal ac, os yw'n berthnasol, manylion eich landlord wrth law pan fyddwch yn ffonio.

Os ydych yn dymuno gwneud cais, ac rydych eisiau cymorth i gwblhau'r cais, neu os oes gennych unrhyw gwestiynau - fel buddiolwr WIBSS, mae gennych fynediad at eich gwasanaeth hawliau lles pwrpasol eich hun. Cysylltwch â ni ar wibss@wales.nhs.uk neu 02920 902280, opsiwn 2 a byddwn yn hapus i'ch helpu. Gallwn egluro pa gyflyrau iechyd a throthwyon incwm sy'n gymwys, os nad ydych yn cael budd-dal sy'n ddibynnol ar brawf modd.

CYFRADDAU DŴR – DŴR CYMRU

WATERSURE CYMRU

Os ydych yn cael budd-daliadau penodol, os oes gennych fesurydd dŵr (neu eich bod yn optio i mewn i gael un) ac rydych yn defnyddio llawer o ddŵr oherwydd bod gennych naill ai gyflwr meddygol neu dri o blant neu fwy o dan 19 oed yr ydych yn hawlio Budd-dal Plant ar eu cyfer, efallai y byddwch yn gallu cael cymorth gan y cynllun WaterSure.

Yr hyn sy'n hollbwysig yw nad yw pob budd-dal cymwys yn ddibynnol ar brawf modd. Felly, os ydych yn cael Lwfans Gweini, Lwfans Byw i'r Anabl neu Daliad Annibyniaeth Bersonol gallwch wneud cais hefyd ar yr amod bod gennych chi (neu rywun yn eich cartref) gyflwr meddygol sy'n gofyn am ddŵr ychwanegol.

Dyma rai enghreifftiau cyffredin:

- Digroeniad (clefyd croen sy'n pilio)

- Croen diferol (ecsema, soriasis, briwiau chwyddedig)
- Anymataliaeth
- Stoma'r Abdomen
- Clefyd Crohn
- Methiant arenol sy'n gofyn am gael dialysis yn y cartref (heblaw pan fo'r awdurdod iechyd yn cyfrannu at gost y dialysis)
- Os nad yw'ch cyflwr wedi'i restru yma, ond ei fod yn dal i fod angen swm sylweddol o ddŵr, gallwch ddarparu gwybodaeth yn eich cais.

Mae WaterSure yn gosod terfyn ar swm eich bil mesuredig blynyddol felly ni fyddwch yn talu mwy na swm penodol am y flwyddyn, ni waeth beth fo'ch defnydd gwirioneddol.

Y cap ar Filiau - cost WaterSure Cymru rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024 yw £403.31 (£166.32 ar gyfer dŵr, £236.99 ar gyfer carthffosiaeth).

TARIFF HELPU DŴR CYMRU

Mae tariff HelpU yn helpu aelwydydd incwm isel drwy roi terfyn ar y swm y mae'n rhaid iddynt ei dalu am eu dŵr. **Y gost flynyddol gan HelpU yw £291.30 (£124.01 am ddŵr a £167.29 am garthffosiaeth, bydd angen mesurydd dŵr arnoch (neu bydd angen i chi optio i mewn i gael un),** rhaid i rywun yn y cartref fod yn cael o leiaf un budd-dal sy'n ddibynnol ar brawf modd a rhaid i incwm blynyddol cyfunol yr aelwyd fod ar neu o dan y trothwy.

MAINT YR AELWYD	TROTHWY INCWM
1	£9,700
2	£14,600
3+	£16,100

I wneud cais am unrhyw un o'r cynlluniau Lleihau Biliau Dŵr hyn:

- ❖ Ewch i <https://www.dwrcymru.com/cy-gb/support-with-bills/watersure-tariff> (tariff WaterSure) neu
- ❖ <https://www.dwrcymru.com/cy-gb/support-with-bills/helpu-tariff> (Tariff HelpU)
- ❖ Byddwch angen manylion am eich incwm a budd-daliadau a'ch Cyfeirnod Cwsmer Dŵr Cymru – mae hwn i'w weld ar eich bil.

Os hoffech i un o'ch Tîm Lles WIBSS penodedig ateb unrhyw gwestiynau neu wneud cais ar eich rhan, cysylltwch â ni ar wibss@wales.nhs.uk neu 02920 902280, opsiwn 2 a byddwn yn hapus i'ch helpu.

CYLLID

2^{il} ADRODDIAD INTERIM

Cyhoeddwyd 2^{il} Adroddiad Interim yr Ymchwiliad i Waed Heintiedig ar 5 Ebrill 2023. Gweler y ddolen isod.

<https://www.infectedbloodinquiry.org.uk/news/second-interim-report-published>

Mae dolen i'r adroddiad hefyd ar dudalen flaen gwefan WIBSS.

Mae Llywodraeth Cymru wedi croesawu adroddiad interim yr ymchwiliad a bydd yn ei ystyried yn ofalus. Bydd yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig eraill i fwrw ymlaen â'r gwaith o ddatblygu cynllun iawndal.

Bydd Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru yn parhau i ddarparu taliadau rheolaidd a chymorth i bobl sydd wedi'u heintio â HIV neu Hepatitis C a'u teuluoedd.

CYFRADDAU NEWYDD 23/24

Dylai pob un ohonoch fod wedi cael llythyr ynghylch y codiad erbyn hyn, yn rhoi gwybod i chi beth fydd eich cyfradd o 1 Ebrill 2023. Os nad ydych wedi cael eich llythyr eto neu os oes angen unrhyw beth pellach arnoch, cysylltwch â'r tîm cyllid.

Gweler y tabl isod sy'n nodi'r cyfraddau newydd:

Taliadau Parhaus	Cyfraddau WIBSS	Cyfradd ar 75% ar gyfer	Cyfraddau WIBSS	Cyfradd ar 75% ar gyfer
	O fis Ebrill ymlaen	Partneriaid/priod mewn profedigaeth	O fis Ebrill	Partneriaid/priod mewn profedigaeth
	22/23		23/24	
Hep. C Cam 1	£19,498	£14,624	£21,467	£16,100
Hep. C Cam 1 + (cymorth uwch)	£29,569	£22,177	£32,555	£24,417
Hep. C Cam 2	£29,569	£22,177	£32,555	£24,417
HIV	£29,569	£22,177	£32,555	£24,417

Hep. C Cam 1 a HIV (cyd- heintio)	£40,135	£30,101	£44,189	£33,141
Hep. C Cam 2 a HIV (cyd- heintio)	£46,469	£34,852	£56,162	£38,372
Hep. C Cam 1 + (cymorth uwch) a HIV (cyd-heintio)	£46,469	£34,852	£56,162	£38,372
Tanwydd Gaeaf	£561	£561	£618	£618